50127

# MARWNAD,

Yn gosod allan y modd y soddodd Cwch y Borth newydd ar ddydd Sadwrn, Awst y 5ed, 1820, o ddeutu 9 o'r gloch yn y boreu, ynghyd a 25ain o Eneidiau, wrth fyned i farchnad Caernarfon, o amryw fannau o Swydd Fon; yr hyn sy'n galw am ystyriaeth pawb i wylio, a bod yn effro, canys ni wyddom pa awr y daw Meistr y ty, rhag ofn iddo ein cael yn cysgu.-----I'w chanu ar 'Ddiniweidrwydd.'

---

BETH yw'r tristwch sydd yr awrhon,
Trwy Fôn ac Arfon oll o'r bron ?
A ydyw brenhin dychryniadau
'N parhau a'i saethau 'n y wlad hon ?
Wrth fod yn rhodio ymhlith brenhinoedd,
Gwel ar gyhoedd trwy bob gwlad :
A wyt ti'n nelu'th drwm ergydion,
At Fôn ac Arfon heb wellhad ?

2 Pan gaf orchymyn yn ddi'sgeulus,
Oddi fry o lŷs y nef,
Nid wy'n prisio am un brenhin,
Pe byddai'n gawr a byddin gref ;
Ac ni phrisiaf am gyfoethog,
Na thlawd anghenog, gwlad na thref ;
Taro i lawr a wnaf mewn munud,
Pan gaf y ddedryd fry o'r nef.

3 Er maint yw grym dy gleddau miniog,
Y gelyn, cofia dithau hyn,
Llew o Juda a'th lyngcodd dithau,
Draw ar ben Calfaria fryn.
Er dy fod yn gongc'rwr odiaeth,
Nad oes mo'th fath o fewn y byd,
Tithau, yn ddiwedd, a ddinystrir,
Medd geiriau gwir y Bibl clyd.

4 Môn ac Arfon, beth yw'r achos
Fod y cwyno'n aros c'yd ?
Rhyw newyddion trist sy'n dyfod,
Mawr yw'th drallod bob rhyw bryd :

Ymhlith miloedd o rybuddion,
  Dyma un yn gyson gaed,
Rhybudd amlwg wedi dyfod,
  Fod angau'n barod wneud ein brâd.

5 Y Sadwrn cynta' o Awst yn ddiau,
  Cychwynai rhai'n o'u cartre'n llon,
I fyn'd i farchnad Tre Caernarfon,
  Mewn modd union dros y don;
Pawb yn meddwl myn'd yr awr'on
  Dros y tonnau'n ddigon mwyn,
Heb feddwl b'asai'r angau ar gyhoedd,
  I'r dyfnderoedd yn eu dwyn.

6 O pwy galon na all wylo,
  Sef wrth gofio am yr awr
Y ca'dd y rhai'n o'r byd eu symmud,
  Byth i'r trag'wyddolfyd mawr;
Hyn sydd rybudd oll i ninnau,
  Cyn del angau i'n cyfer, clyw,
I fyw yn sobr ac yn sanctaidd,
  A rhodio'n weddaidd ger bron Duw.

7 I lan y môr yn llawen aethant,
  Gwaeddasant yno ar y gwyr,
I gael eu cario hwy'n ddiogel,
  Modd tawel i Gaernarfon Sir;
Buont yno'n waitio 'chydig,
  Sef i'r cwch gael d'od i'r lan—
Chwi gewch glywed, trwy fawr syndod,
  Modd 'raent i'r gwaelod yn y man.

8 Hwyliasant allan yno'n unfryd,
  Am gyrhaeddyd y lan draw,
A thymestl wynt ar unwaith chwythodd,
  Nes aethant oll mewn dirfawr fraw—
Pawb oedd yno'n syn mewn galar,
  Rhag ofn iddynt yr un wedd

Gael eu taflu mewn un munud,
A'u claddu oll mewn dyfrllyd fedd.

9 Ac ar y gair y cwch ddymchwelodd,
Nes soddodd pawb o dan y don,
Oll yn fuan lawr i'r dyfnder,
Mae hyn yn brudd-der dan ein bron;
Oll boddasant ond Hugh Williams,
Yr hwn a ddaeth i'r lan yn fyw;
A'r lleill i gydwynebu angau,
A 'mddangos ger bron brawdle Duw.

10 Myn'd ar y cwch yn ol a ddarfu,
Cadw ei hun a wnaeth fel hyn:
Un Mari Parri, trist ei henwi,
Am ei ganol gydiai'n dynn,
Ynte' ei dwylaw ddarfu symud,
Hi a'i collai yno'n syth,
I'r dyfnder aeth i lawr yn dawel,
Hi roes ffarwel i bawb dros byth.

11 Dyma'r modd yn syn terfynodd,
Y rhai'n eu gyrfa yn eu dydd;
Rhai o'u cyrph a gaed i fynu,
A'u claddu gawsant, galar prudd:
A'r lleill, eu cyrph sy'n llechu'n rhywle
Yn y dyfnder oer yn awr,
Ond hyn sydd sicr, cant gyfodi,
Pan glywant swn yr udgorn mawr.

12 Mon ac Arfon, mae'n bryd i'ch rywfodd,
Wisgo galar wisgoedd du;
Dyma rhybudd ich' o newydd,
I blygu o flaen yr Arglwydd cu:
Y rhai'n a aethant i'w hir gartre,
Ninnau a'u canlynwn hwy;
Ar frys, credwn bawb, fel rodiwn
Y llwybr na ddychwelwn mwy.

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

13 Ar eu hol mae tadau a mammau,
  Yn wylo'r dagrau'n yma'n lli',
Ynghyd a gwyr ar ol eu gwragedd,
  Heb ymgeledd yma sy',
Ac ugeiniau o blant ymddifaid,
  A'u hochenaid heddyw'n brudd;
Duw fo'n dad yn ol ei addewid,
  I'r rhai ymddifaid yn eu dydd.

14 Perth'nasau rhai'n sy' ar ol yn wylo,
  Cofiwch hyn yn gryno i gyd,
Na thristewch fel rhai heb obaith,
  Am i angau eu dwyn o'r byd;
Hwy ni ddont yn ol byth mwyach,
  Cawsant bellach farwol glwy;
Ninnau oll a hedwn ymaith,
  A thu a'r bedd canlynwn hwy.

15 Golwg drist yw hon yr awrhon,
  Mae pawb yn bruddlon iawn eu bron,
Clywed soddi'n drist, mewn damwain,
  Bump ar hugain dan y don!
Mae yn abl peri wylo,
  Pawb a'i clywo, trwy bob gwlad,
Modd mae'r angau yn dynystrio,
  A tharo i lawr o dan ei draed.

16 Yn awr, cyn torri'r llinyn arian,
  A'r cawg aur, ein bywyd yw,
Duw a roddo i ni drugaredd
  I newid buchedd tra b'om byw;
Fel y byddom oll yn barod
  I gyfarfod brenin nen,—
I roi'r clodydd mewn gogoniant,
  I'w enw'r moliant byth, Amen.

THOMAS HARRIES, a'i cant.

---

J. James, Argraphydd, Merthyr.